*This document is available in English*

**Eitem Agenda 18**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Hydref 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Lee Bourne, Pennaeth Hyfforddiant a Datblygu** |
| Pwnc | **Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol 2024-2025** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 I gyflwyno Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol drafft i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar gyfer 2024 – 2025, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Rhaid cyhoeddi'r adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol heb fod yn hwyrach na blwyddyn ar ôl y cyfnod adrodd. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

3 Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Adran 149, Deddf Cydraddoldeb 2010), rhaid cyhoeddi'r adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol erbyn 31 Mawrth 2026 fan bellaf.

4 Mae'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol drafft ar gyfer 2024-2025 wedi'i atodi i'w adolygu gan yr Awdurdod.

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

5 Nid yw'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol drafft ar gyfer 2024-2025 wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio na'r Panel Gweithredol.

## ARGYMHELLIAD

6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) **Adolygu a chymeradwyo'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol drafft 2024-2025.**

## CEFNDIR

7 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cydgrynhoi ac yn disodli deddfwriaeth gwrth-wahaniaethu flaenorol gydag un ddeddf. Daeth y rhan fwyaf o'i ddarpariaethau i rym ar 1 Hydref 2010.

8 Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'). Daeth hyn i rym ar 5 Ebrill 2011.

9 Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i ystyriaethau cydraddoldeb penodol wrth arfer eu swyddogaethau.

10 Yng Nghymru, mae dyletswyddau penodol o fewn Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi adroddiad cydraddoldeb blynyddol.

**GWYBODAETH**

11 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ddata Cydraddoldeb a gofnodwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), ar 31 Mawrth 2025.

12 Ar y dyddiad hwnnw, y nifer gwirioneddol o bobl a gyflogwyd gan y Gwasanaeth oedd 887. Fodd bynnag, cyfanswm y swyddi wedi'u llenwi oedd 949, oherwydd bod rhai unigolion yn dal rolau deuol. O ganlyniad, bydd nodweddion gwarchodedig yr unigolion hynny mewn rolau deuol yn cael eu cyfrif fwy nag unwaith.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dim |
| Cyllideb | Dim |
| Cyfreithiol | Gofyniad statudol i gydymffurfio â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Nid oes unrhyw oblygiadau negyddol wedi'u nodi oherwydd pwrpas yr adroddiad yw cefnogi cydraddoldeb a hawliau dynol. |
| Risgiau | Diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth drwy beidio â chyhoeddi'r adroddiad erbyn 31 Mawrth 2026. |